



### Ystyriaethau cyffredinol wrth lunio polisi AAA/ADY.

- Mae angen statudol i'r 17 rhan o'r polisi gael eu cynnwys, a gan fod pob ysgol yn unigryw o ran ei threfniadau mewnol ac o ran yr arbenigedd sydd ar gael o fewn yr ysgol, anodd, os nad amhosibl, yw cynnig polisi a fydd yn briodol ar gyfer unrhyw ysgol. Rhaid felly **addasu'r cynnwys** a'i deilwrio i'ch anghenion/ cyddestun o dan y 17 pennawd.
- Bydd angen i'r Llywodraethwyr **adrodd i rieni'n flynyddol** ar weithrediad/ llwyddiant y polisi, a'i adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn berthnasol.
- Mae rhai ysgolion yn cynnwys Anghenion Dysgu Ychwanegol o fewn eu polisi bellach, gan ei alw'n bolisi AAA/ADY. Os felly gellir cynnwys yr hyn mae'r ysgol yn ei wneud ar gyfer y disgyblion hynny sy'n dod o fewn y diffiniad o ADY (sy'n cynnwys disgyblion galluog a thalentog, disgyblion lleiafrifoedd ethnig, Saesneg fel iaith ychwanegol SIY (EAL), Plant Mewn Gofal (PMG), teithwyr, gofalwyr ifanc, ffoaduriaid, plant sy'n perfformio ayyb....sef disgyblion fydd angen cynhaliath ychwanegol ), a chyfeirio at y person cyfrifol am yr agweddau yma (y CGAAA hefyd yn CGADY mewn rhai ysgolion, ond nid mewn eraill.). Gellir croesgyfeirio at bolisiau a gweithdrefnau eraill perthnasol sy'n ymwneud â phlant ADY.
- Mae'n arfer dda i gychwyn drwy gyfeirio at sut y mae'r polisi yn gwireddu egwyddorion ac amcanion cyffredinol yr ysgol.
- Er mwyn osgoi gorfod adolygu'r ddogfen gyfan pob blwyddyn, mae rhai ysgolion yn cynnwys y wybodaeth gyfredol (sy'n gallu newid yn flynyddol e.e. adnoddau a ddyrenir, enwau staff, trefniadau penodol grwpiau bach ayyb) fel **atodiadau i'r polisi, ac yn cyfeirio atynt e.e gweler Atodiad 1 'Dyraniad Blynyddol AAA'**.
- Mae angen adolygu'r polisi yn flynyddol, ei arwyddo a'i ddyddio gan y cadeirydd (neu dyddio'r adolygiad ohono) ac adrodd ar ei lwyddiant/ weithredu i'r corff llywodraethol ac yn adroddiad blynyddol y rhieni.

## POLISI AAA/ADY



### A. Egwyddorion ac Amcanion

#### *Egwyddorion*

Mae'r ysgol hon yn anelu at:

- sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.
- gydweithio'n effeithiol ag asiantaethau statudol ac eraill perthynol i'r plentyn a'i anawsterau.
- weithio'n agos gyda rhieni er mwyn sicrhau partneriaeth effeithiol i helpu'r disgybl.
- roi pwyslais ar gyfraniad y disgybl ac yn rhoi pob ystyriaeth i'w farn.
- sicrhau ymateb ysgol gyfan i helpu'r disgybl.

#### *Amcanion*

- Sicrhau bod cyfundrefn yn bodoli yn yr ysgol i adnabod yn gynnar y plentyn sydd ag anawsterau a all fod yn llesteirio ei addysg.
- Casglu gwybodaeth ynghyd gan athrawon, rhieni, y disgybl ac eraill i sicrhau y ceir y ddealltwriaeth orau am natur anawsterau'r plentyn.
- Sicrhau y caiff y ddarpariaeth angenrheidiol ei gwneud ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig.
- Ceisio sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth y rhieni ac eraill mewn perthynas ag adnabod a darparu gwasanaeth.

#### *Enw'r Cydlynnydd AAA*

Y Cydlynnydd AAA yw Mrs Gwyneth Jones

Y Lywodraethwr ddynodedig yw Ms Falmai Squires

## **B. Gwybodaeth am y ddarpariaeth AAA**

### ***Y trefniadau ar gyfer cydgordio'r ddarpariaeth***

Y Cydlynnydd sydd yn gyfrifol am gydgordio'r gwasanaeth o fewn yr ysgol.

#### ***Cyfrifoldebau'r Cydlynnydd yw:***

- gweithredu'r polisi o ddydd i ddydd
- cydgysylltu a chydweithio gydag athrawon a'u cynghori am y ddarpariaeth.
- Cynnig arweiniad i athrawon/ staff cefnogol neu trefnu arweiniad fel bo angen
- cydgysylltu â rhieni disgyblion AAA
- trefnu darpariaethau addas i gyfarfod â'r anghenion yn yr ysgol, mewn cydweithrediad â'r pennaeth a'r Corff Llywodraethol
- cydgysylltu'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag AAA
- sicrhau dulliau canfod ac asesu disgyblion ADY priodol
- cadw cofnodion AAA yr ysgol a goruchwyllo cofnodion pob disgybl ag AAA yn rheolaidd
- cydgysylltu ag asiantaethau cynnal eraill, e.e., addysg, iechyd, cymdeithasol, gwirfoddol
- sicrhau adolygu'r trefniadau'n rheolaidd, yn dilyn arfarniad o'i effeithiolrwydd wrth sicrhau cynnydd disgyblion
- hunan arfarnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth (mewn cydweithrediad â'r pennaeth)
- bwydo canfyddiadau hunan arfarnu ac anghenion hyfforddiant i mewn i gynllun gwella'r ysgol.
- Llenwi, adolygu a diweddarau'r Map Darpariaeth/DaD yn rheolaidd a chson gyda'r Pennaeth.

### ***Trefniadau Mynediad***

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion ag AAA i mewn i'r ysgol trwy:

- gydweithio gyda'r asiantaethau cynnal wrth dderbyn disgybl o'r newydd
- fynychu cyfarfodydd swyddogol, fel adolygiadau datganiadau, e.e., trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd, symud o ysgol arbennig
- drafodaethau a derbyn gwybodaeth, e.e., symud o ysgol i ysgol
- drafod â rhieni
- ymdrin â'r cais mewn dull cadarnhaol ac o fewn yr amgylchiadau sy'n bodoli o fewn yr ysgol ar yr adeg dan sylw
- ddarparu cefnogaeth sensitif a phriodol er mwyn sicrhau y bydd y disgybl yn cael ei gynnwys yn holl weithgareddau'r ysgol yn unol â Deddf Hawliau'r Anabl a'r Ddeddf Anbledd 2004.

### **C. Gwybodaeth ar adnabod, asesu a darparu ar gyfer disgyblion ag AAA**

Yn yr ysgol hon yr ydym yn canfod anghenion addysgol yn fuan trwy:

- gael tystiolaeth o arsylwadau ac asesiadau athrawon gan gofio fod pob athro yn athro ar blant AAA
- edrych ar berfformiad y disgyblion yn erbyn disgrifiadau lefelau y Cwricwlwm Cenedlaethol
- sicrhau fod dulliau sgrinio ac asesu safonedig yn wybyddus i bob athro.
- fod yn agored a pharod i ymateb pan fo rhieni yn mynegi pryder, pryder y disgybl ei hun neu bryderon gan weithwyr proffesiynol eraill.

### **Trefniadau ar gyfer darparu mynediad i ddisgyblion ag AAA i gwricwlwm eang a chytbwys, gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol**

Bydd pob disgybl ag AAA yn dilyn y cwricwlwm gyda disgyblion eraill. Os cyfyd anawsterau, yna:

- i. rhoddir sylw unigol o fewn y dosbarth
- ii. paratoir gwaith unigol gan yr athrawon dosbarth a chan yr athrawes AAA
- iii. trefnir cydweithio â phlant eraill
- iv. cynigir cynhaliaeth grŵp bach/grŵp targed
- v. ymgynghorir gydag asiantaethau cynhaliol
- vii. cynhelir trafodaethau gyda rhieni
- viii. llunir cynllun addysg unigol i ddisgyblion o fewn Cymorth gan yr Ysgol, Cymorth gan yr Ysgol a Mwy ac ar gyfer disgyblion sydd ar Ddatganiad.

### **Sut mae disgyblion ag AAA yn cael eu cynnwys**

Bydd yr ysgol yn darparu cefnogaeth sensitif a phriodol er mwyn sicrhau y bydd y disgybl yn cael ei gynnwys yn holl weithgareddau'r ysgol, fel y bo modd. Dilynnir Côt Ymarfer Comisiwn Hawliau'r Anabl (Ysgolion), y Ddeddf AAA ac Anabledd 2001, a'r Ddeddf Anabledd 2004. Mae'r ysgol wedi creu Cynllun Hygyrchedd sy'n amlinellu sut y sicheir mynediad disgyblion, rhieni ac ymwelwyr ar safle'r ysgol, at y cwricwlwm ac at wybodaeth yr ysgol.

## **Trefniadau ar gyfer ystyried cwynion am y ddarpariaeth AAA/ADY**

Gall rhiant sydd â chwyn gysylltu â'r canlynol yn y lle cyntaf:

- y Cydlynnydd AAA/Pennaeth
- cynrychiolwyr y rhieni ar y Llywodraethwyr  
Llywodraethwraig/wr penodedig anghenion addysgol arbennig

Os nad yw'r ffyrdd hyn yn cynnig ateb i'r gŵyn yna gall y rhiant ddilyn y sianelau isod:

Mae'r ddogfen Trefniadau lleol ar gyfer ystyried cwynion a wneir dan Adran 23 y Ddeddf Diwygio Addysg ar gael ym mhob ysgol.

## **CH. Gwybodaeth am bolisiâu staffio a phartneriaeth â chyrff allanol**

### **Trefniadau'r ysgol ar gyfer hyfforddiant mewn swydd AAA/ADY**

- y Cydlynnydd i adnabod anghenion hyfforddi gan fwydo i mewn i'r Cynllun Gwella/Datblygu
- drwy Bwyllgor HMS y dalgylch
- yn y sector uwchradd gall ysgolion unigol wneud cais am gymorth hyfforddi neu gynhafiaeth trwy ddefnyddio cyllid ysgol neu fel rhan o'r cytundeb gyda'r Awdurdod Addysg.

### **Trefniadau ar gyfer partneriaeth â rhieni**

Mae'r ysgol yn cydnabod y dylanwad holl bwysig sydd gan rieni ar gynnydd addysgol eu plant. Er mwyn sicrhau partneriaeth effeithiol anogir cydweithrediad gyda rhieni trwy:

- talu sylw proffesiynol i bryderon rhieni gan eu trafod am amser rhesymol ac ar yr amser cyfleus cyntaf
- cysylltu â'r rhieni pan benderfynir cymryd camau i ddelio ag anawsterau dysgu trwy Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy gan ofyn am eu barn a'u sylwadau
- rhoi lle amlwg i gymorth y rhiant lle bo hynny'n briodol
- rhoi sylw proffesiynol i farn y rhieni wrth lunio cynlluniau addysg unigol
- rhannu gwybodaeth am ffynonellau cymorth
- sicrhau bod y polisi hwn yn ei gyfanrwydd ar gael i'r rhieni ei ddarllen
- cynnwys rhieni mewn adolygiadau rheolaidd ar eu plentyn
- darparu adran yn Llawlyfr yr Ysgol yn trafod AAA.
- Sicrhau cyfleoedd i rieni gyfrannu at hunan arfarniadau ADY

## **Cysylltiadau ag ysgolion prif-lif eraill ac ysgolion arbennig, gan gynnwys y trefniadau pan fydd disgyblion yn newid neu'n gadael ysgol**

Mae gan yr ysgol gysylltiad agos ag ysgolion y dalgylch ac yn cyd-drafod â hwynt pan fydd disgybl yn:

- symud o ysgol prif-lif i ysgol prif-lif arall - cysylltu am fanylion,
- symud o ysgol gynradd i uwchradd - trosglwyddo gwybodaeth, cyfarfodydd adolygu
- symud i ysgol arbennig neu yn ôl i'r prif-lif - trafodaethau rhwng yr ysgolion a'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig

Yr ydym hefyd yn cydweithio gydag ysgolion ac yn cael hyfforddiant dalgylch / sirol.

## **Cysylltiadau â gwasanaethau iechyd cynhaliol ac asiantaethau**

Mae'r gwasanaeth cefnogi yn yr Awdurdod ar gael drwy'r Cyd-Bwyllgor AAA a thrwy Cynnal. Darperir gwasanaeth gan:

- i. **y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol**
- ii. **Ymgynghorydd ADY, Cynnal**
- iii. **Athrawon arbenigol - nam ar y golwg, nam ar y clyw, nam corfforol, anawsterau cyfathrebu ac awtisiaeth, y gwasanaeth cyn-ysgol**
- iv. **Gwasanaethau Iechyd**

Gellir cyfeirio at y nyrs ysgol - yn ymwelydd rheolaidd ac yn bwynt cyswllt â phersonél eraill. Hefyd mae'r Meddyg Ysgol yn ymweld o leiaf unwaith y flwyddyn pryd y gellir trafod achosion penodol. Yn ogystal gellir cysylltu'n ffurfiol gyda'r meddyg, gyda chaniatâd y rhieni, i ofyn am wybodaeth berthnasol i addysg y plentyn.

- v. **Gwasanaethau Cymdeithasol**

Y pwynt cyswllt cyntaf yw'r Gwasanaeth Lles Addysg er mwyn cyfeirio'r ysgol tuag at y man priodol. Hefyd, mae cyswllt gydag aelodau o'r Gwasanaeth sydd wedi eu datblygu dros nifer o flynyddoedd. Cysylltir yn uniongyrchol â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar unrhyw adeg gyda materion brys.

- iv. **Gwasanaeth Lles Addysg**

Mae'r Swyddog Lles yn ymwelydd rheolaidd â'r ysgol a defnyddir y swyddog i ymweld â chartrefi lle bo angen. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig arweiniad a chymorth gan gyfeirio'r ysgol at asiantaethau eraill.

vii. **Cyrff Gwirfoddol**

Cynhwysir rhestr o ffynonellau cymorth yng nghefn y ffeil: Côt Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002.

viii. **Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc [CAMHS]**

ix. **Gyrfa Cymru**

x. **Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant**

**Y meini prawf ar gyfer arfarnu llwyddiant y polisi AAA hwn**

O adrodd yn flynyddol i'r rhieni yn yr Adroddiad Blynyddol bydd y Llywodraethwyr yr ysgol hon yn cyfeirio at y materion isod:

- Beth oedd dyraniad cyllidol yr ysgol gogyfer ag AAA a sut y defnyddiwyd y cyllid?
- Sawl plentyn sydd ar gyfnod anghenion arbennig neu, gydag ADY arall?
- Sawl plentyn sydd yn derbyn sylw ychwanegol?
- Beth yw'r ddarparieth a gynigwyd yn ystod y flwyddyn?
- Beth yw'r deilliannau i ddisgyblion yma, oes cynnydd yn eu sgiliau?
- A yw'r trefniadau yn gweithio'n effeithiol?
- Oes hunan arfarniad o faes/agwedd ADY wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn, os felly beth yw'r canfyddiadau? Ydy'r rheiny wedi bwydo i gynllun gwella'r ysgol?
- Beth yw'r datblygiadau DPP a fu i staff eleni? A fu mewnbwn DPP gan asiantaeth allanol?
- Beth yw canfyddiadau holiaduron/ barn disgyblion a rhieni am y ddarpariaeth/ cynnydd eu plentyn?
- Beth oedd casgliadau unrhyw arfarniad/ ymgynghoriad allanol o'r ddarpariaeth AAA?
- A oes newidiadau wedi bod yn y polisi dros y flwyddyn? Os oes, beth sydd angen ei newid a'i fabwysiadu gan y Corff Llywodraethol?

Byddwn yn adolygu'r gweithdrefnau yn nhymor yr haf gan bwysu a mesur gwerth a llwyddiannau er mwyn cynllunio y camau nesaf ar gyfer yr ysgol a'r plant fel unigolion.

Dyddiad y mabwysiadawyd gan y Corff Llywodraethol yn wreiddol:

Tymor yr Hydref 2013

Cadeirydd \_\_\_\_\_

Pennaeth \_\_\_\_\_

Adolygwyd Hydref 2014

## **Atodiad 1** (sydd yn cael ei adolygu yn flynyddol)

Polisi AAA/ADY Ysgol Llanbedrog

### Arbenigedd AAA, Adnoddau, darpariaeth/ grwpiau cynhaliaeth 2014-15

Yn yr ysgol hon y dyraniad AAA am y flwyddyn 2013 - 2014 yw **£6,009**

Gwariant yr ysgol fel a ganlyn:

- Cyfrannu tuag at gyflogi annogwr dysgu
- Adnoddau
- Cyfnodau di-gyswllt cydlynedd i fynychu cyfarfodydd a gwneud gwaith gweinyddol

Anelir i roi cymorth AAA yn bennaf mewn Llythrennedd e.e. darllen, ysgrifennu a sillafu, Rhifedd a chymorth ADY arall drwy ddatblygu sgilau cymdeithasol mewn sesiynau gyda chymhorthydd cynnal ymddygiad.

Mae'r mwyafrif o'r cymorth Mathemateg yn cael ei wneud yn y dosbarth trwy wahaniaethu. Mae grwpiau targed Llythrennedd a Rhifedd wedi eu sefydlu ar gyfer blynyddoedd 2-6.

Gweler Map Darpariaeth yr ysgol am fanylion pellach

Mae trefniadau adolygu cynnydd y disgyblion ac fe wneir hyn trwy adolygiadau ddwywaith y flwyddyn, misoedd Hydref a Mawrth, a thrwy drafodaethau manwl rhwng y rhieni a'r athrawon gan roi pwyslais ar gyfraniad y disgybl.

Sicrheir y darperir cyfleoedd i staff dderbyn hyfforddiant ym maes AAA.

Mae'r trefniadau ar gyfer cynnig sylw grwpiau bach/ un i un fel a nodir yn y Map Darpariaeth a'r DaD.